# Gweithdai Gŵyl Haf

**Dawns ar Eistedd**

Mwynhewch gerddoriaeth a symudiadau mewn sesiwn ddawns llawn hwyl gydag Ashley. Mynnwch y rhyddid i symud tra'n eistedd yn gyfforddus neu, ar gyfer y rhai hynny sydd am fynd cam ymhellach, sefwch a chofleidio'r gofod yn y gerddi hyfryd.

12-12.30yh

**Dawns Gynhwysol**

Gweithdy symud awyr agored ysgafn sy'n eich bywiogi, hygyrch i bawb. Byddwn yn ymgysylltu â'n gilydd a natur yr ardd, a'r coed yn enwedig.

2 - 2.45yh

**Twmpath Dawns**

Dewch i fwynhau Twmpath a chael hwyl wrth ddysgu ambell ddawns Gymreig. Ffordd wych i ddod â diwrnod gŵyl llawn hwyl i ben. Does dim angen unrhyd brofiad blaenorol.

3.30 - 4.30yh

**Disco Tawel – Gweithdy Dawns, Llawenydd yr Haf**

I ddathlu llawenydd yr haf byddwn yn dawnsio drwy'r gerddi, gan ddysgu a chreu dawnsiau wedi'i hysbrydoli gan yr ardd yn yr haf, a'r holl lawenydd sy'n ymddangos yn y tymor hwn.

Byddwch yn disgwyl gweld propiau lliwgar, clywed cerddoriaeth wych a chael llawer o hwyl i bob oedran yng nghwmni Freya.

11-11.45yb

3 - 3.45yh

**Drymio**

Ymunwch â Bongo Clive am hwyl gyda Drymiau ac Offerynnau Taro. Archwiliwch Synnau a Rhythmau a ddaw â gwên i'ch wyneb!

10.30 -11.15yb

11.30 -12.15yh

12.30 -1yh

2 - 2.45yh

**Storïau ac Offerynnau**

Bydd Nigel yn chwarae offerynnau o lawer gwlad, gan adrodd storïau am y diwylliannau y mae'r offerynnau yn tarddu ohonynt.

10.30 -11.30yb

12 -1yh

2 - 2.45yh

**Telyn**

Ymunwch ag Elin yn y cyfle gwych hwn i ymgolli ym mhrydferthwch a synau ymlaciol y delyn. Gan ddefnyddio telynau bychan, cewch eich tywys drwy ambell arddangosiad, dysgu ambell i alaw sylfaenol a gorffen gydag ychydig chwrae rhydd. Cyfle unigryw i brofi holl hud y delyn.

10.30 -11.15yb

11.30 -12.15yh

1.30 - 2.15yh

2.30 - 3.15yh

3.30 - 4.15yh

**Printio Leino -** Archwiliwch y dechneg o brintio leino, gan ddylunio a cherfio eich darn leino eich hun i greu printiadau maint A5 pwrpasol yng nghwmni Laura.

*(Yn addas ar gyfer oedran 16+, neu 12+ os yng nghwmni oedolyn)*

*...gweithdy y byddai Neville wedi'i gymeradwyo; roedd yn CARU popeth yn ymwneud â phrint!*

10.30yb -12.30yh

2 – 4yh

**Gwaith Gwifrau**

Ymunwch â Julia Griffiths Jones yn y gweithdy llawn hwyl hwn i greu darn o waith gwifren unigryw, y gallwch fynd ag ef adref gyda chi – y cyfan mewn awr a hanner yn unig! Dewiswch o amrywiaeth o wifrau lliw i addurno a ffurfio eich gwaith celf gwifren eich hun. Does dim angen unrhyw brofiad blaenorol.

*......gweithdy y byddai Neville wedi'i gymeradwyo, gan ei fod yn arbenigwr ar gerflunio gwifren a chrefft.*

10.30yb -12yh

12.15 -1.45yh

3 - 4.30yh

**Ysgrifennu a Cherdded**

Ewch am dro o gwmpas y gerddi gyda'ch pensil a phapur (neu ddyfais) er mwyn dod ag hyfrydwch a barddoniaeth bywyd yn fyw ar y dudalen, o dan arweiniad yr awdur ac ymarferydd lleol Lottie Williams.

11-12.30yh

**Ysgrifennu Creadigol: 'Lle Arbennig'.**

Drwy weithgareddu ysgrifennu byddwn yn ymgolli yn ein llefydd arbennig ein hunain, gan alw ar ein hatgofion a'n synhwyrau i roi bywyd iddynt ar y dudalen. Meddwl am lefydd arbennig mewn lle arbennig......
Does dim angen unrhyw brofiad blaenorol.

2 - 3yh
3.30 - 4.30yh

**Tynnu lluniau Sendwdl yn natur** (taro i mewn, dim angen bwcio)

Sesiwn taro i mewn ystyriol i ymgysylltu â natur, gan greu eich sendwdlau unigryw eich hun, gydag ysbrydoliaeth natur.

Bydd y gweithgaredd hwyl ac ymlaciol hwn yn addas ar gyfer pob oedran a gallu.

10.30yb -1yh

**Taith Dwdl**

Taith gerdded dawel ystyriol, yn aros ar hyd y ffordd i ddal siapau, patrymau a lliwiau natur drwy fraslunio a dwdlan. Unwaith y byddwch yn ôl yn y tŷ gwydr byddwch yn defnyddio technegau sendwdlan tywysedig ac ymlaciol i wella'ch brasluniau, y cyfan diolch i Karen.

2.30 - 4.30yh

**Crefft** (taro i mewn, dim angen bwcio)

Crefft hwyl a chreadigol i bawb.

10.30yb -1yh a 2 - 4.30yh

**<u>Fflora Ffantastig a Chrefft Fflora</u>** (taro i mewn, dim angen bwcio)

Hwyl Fflora Ffantastig a Ffawna Glöynnod Byw. Dewch i greu blodyn ffantasi neu greadur adeiniog i'w gario, ei wisgo neu i ddawnsio gyda yn ein Gŵyl Haf, a hynny yng nghwmni Mel.

10.30yb -1.30yh a 2.30 - 4.30yh

**<u>Hŵp Awyrol – 'Mynnwch Dro'</u>** (Bwciwch ar y diwrnod)

Ydych chi erioed wedi dymuno hedfan? Ymunwch â ni wrth y rig awyrol am sesiwn taro i mewn, wedi'i ddylunio i'ch codi oddiar y ddaear. Does dim angen profiad blaenorol – dim ond bod yn fodlon rhoi tro arni. Cyfle i symud, chwarae a darganfod eich fersiwn eich hun o hedfan, a hynny mewn gofod cefnogol, wedi'i ddaearu.

12 – 4yh, taro i mewn.